Cwestiynau Cyffredin

Sesiynau rhwydweithio Lefel 2 GChDDP Craidd, Lefel 2 a Lefel 3 GChDDP Ymarfer a Theori

Mawrth 2021

Lefel 2 GChDDP: Craidd

1. Mae gennym ddysgwyr a addysgwyd yn flaenorol gyda darparwr gwahanol ond heb wneud unrhyw asesiadau. Allwn ni osod astudiaethau achos a phrofion enghreifftiol iddyn nhw i benderfynu ydyn nhw'n barod i'w hasesu ac yna'u cyflwyno i sefyll yr astudiaeth achos/prawf i fod yn gymwys heb orfod ail-addysgu?

   Gallwch, bydd angen i chi gydnabod yr addysgu a dysgu blaenorol hwn. Gallwch gwblhau rhywfaint o asesu ffurfiannol gyda'r dysgwr hwn i fapio faint o gynnwys yr ymdriniwyd ag ef yn barod a chynllunio wedyn i lenwi unrhyw fylchau. Fel arfer, gwnewch yn siŵr bod llwybr archwilio cadarn yn cefnogi'r broses hon.

2. Mae gennym ddysgwyr hefyd sydd wedi cwblhau cymhwyster addysgu neu radd, felly allwn ni wneud yr un peth ar gyfer y dysgwyr hyn sydd â gwybodaeth?

   Gallwch, bydd angen i chi gydnabod yr addysgu a dysgu blaenorol hwn. Gallwch gwblhau rhywfaint o asesu ffurfiannol gyda'r dysgwr hwn i fapio faint o gynnwys yr ymdriniwyd ag ef yn barod a chynllunio wedyn i lenwi unrhyw fylchau. Fel arfer, gwnewch yn siŵr bod llwybr archwilio cadarn yn cefnogi'r broses hon.

3. A oes modd addasu'r dudalen flaen i gynnwys mwy o le i'r Aseswr a'r SSAM ychwanegu gwybodaeth?

   Mae tudalennau blaen y pecyn asesu'n rhai safonol. Ond, gall canolfannau ychwanegu tudalen ychwanegol i'w defnyddio i ategu unrhyw sylwadau neu resymau dros roi credyd am ymatebion gwahanol.

4. A oes modd egluro'r drefn i'w dilyn os bydd nodiadau anghyflawn neu ddim nodiadau ar gael ar gyfer dysgwr?

   Yn achos asesiadau mewnol, mae croeso i'r dysgwr gynhyrchu 2 ochr o nodiadau A4 i'w cefnogi wrth gwblhau'r astudiaethau achos mewnol. Ni all y nodiadau hyn fod yn rhai penodol, ond dylent fod ar ffurf nodiadau y gall y dysgwr eu defnyddio i feddwl am gynnwys i ateb y cwestiwn. Er enghraifft, ni all y dysgwr ragfynegi cwestiwn ac yna ffurfio ateb wedi'i baratoi ymlaen llaw. Gall nodiadau fod yn rhai ysgrifenedig neu wedi'u teipio. Dylai'r ganolfan wirio unrhyw nodiadau cyn sefyll yr astudiaeth achos a dylid eu cynnwys yn ogystal yn y pecyn asesu i'w gwirio gan y SSAM a'r SSAA.

5. A yw'r tiwtor wnaeth addysgu'r dysgwr yn cael marcio'r astudiaeth achos?

   Gall unrhyw un o'r ganolfan oruchwylio'r dysgwr a'i marcio pan fydd yr astudiaeth achos yn gyflawn. Dylai lle tawel fod ar gael i'r dysgwr i gwblhau'r asesiad. Yna dylid

casglu gwaith papur yr asesiad yn syth ar ôl yr asesiad i'w farcio.

6. Ydw i'n gallu gofyn sut rydym yn hawlio tystysgrifau ar gyfer y dysgwyr hynny a gwblhaodd y Craidd yn ystod y cyfnod asesu diwethaf?

Ar ôl ymweliad y SSAA, bydd CBAC yn prosesu'r holl ganlyniadau ac yn eu rhyddhau i ganolfannau.

Cyhoeddir y canlyniadau ar y wefan ddiogel.

Gallwch edrych arnyn nhw dan **Canlyniadau > Edrych ar/Argraffu Canlyniadau Pwnc.** Gallwch chi glicio hefyd ar y botwm E-Dystysgrifau ar y dudalen hon i gynhyrchu dogfen PDF ac argraffu tystysgrifau. Diwrnod arfaethedig cyhoeddi'r canlyniadau

Cyfnodau Cofrestru CBAC GChDDP Craidd Lefel 2, Ymarfer a Theori Lefel 2 a Lefel 3:

Cyfnod	Agor y cyfnod cofrestru	Cau'r cyfnod cofrestru	Terfyn amser uwchlwytho i IAMIS	Ymweliadau SSAA	Dyddiad olaf i brosesu cofrestriadau / newidiadau ar gyfer Craidd	Canlyniadau a Awgrymir (tra bod mesurau lliniaru ar waith)
1. Tachwedd	10/09/2020	16/11/2020	18/12/2020	Ionawr 2021	14 Rhagfyr	w/c 8 Chwefror
2. Ionawr	08/02/2021	31/03/2021	31/03/2021	Ebrill 2021	24 Mawrth	w/c 10 Mai
3. Mehefin	08/05/2021	14/06/2021	14/06/2021	Mehefin/Gorffennaf 2021	7 Mehefin	w/c 2 Awst
4. Awst	08/07/2021	31/08/2021	31/08/2021	Gorffennaf/Awst 2021	24 Awst	w/c 6 Medi

7. I addysgu'r Craidd a oes rhaid i'r unigolyn fod yn benodol i'r sector neu'n rhywun â chymhwyster addysgu.

Cyfeiriwch at dudalen 44 y fanyleb Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant Craidd.

Staff canolfannau

Aseswyr mewnol

Rhaid i'r aseswyr mewnol fod yn wybodus yn alwedigaethol. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r aseswr feddu ar y wybodaeth a'r ddealltwriaeth berthnasol, sy'n cyrraedd yr un lefel o leiaf â chynnwys yr uned mae'n ei hasesu. Rhaid i'r unigolyn hefyd feddu ar ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o bwysigrwydd y Gymraeg, a'i diwylliant, polisi a chyd-destun.
Yn ogystal, rhaid i'r unigolyn feddu ar y canlynol neu fod yn gweithio tuag ato:

- y Lefel 3 Dyfarniad mewn Asesu Cyflawniad Galwedigaethol Gysylltiedig neu hen gymwysterau cyfatebol; **neu**
- cymhwyster addysgu cydnabyddedig[4]; **a**
- cynnal gwybodaeth alwedigaethol yr unigolyn drwy ddysgu a datblygiad proffesiynol parhaus clir a pherthnasol, sydd ar yr un lefel o leiaf â lefel yr unedau mae'n eu hasesu.

Lle y bo aseswr yn gweithio tuag at gymwysterau aseswr, rhaid bod trefniant cydlofnodi ar waith gan aseswr cymwysedig o'r un sector neu sector cysylltiedig.

8. A fydd y cwestiynau dewis lluosog yn parhau ar ôl Covid 19?

Mae CBAC wrthi ar hyn o bryd yn peilota llwyfan goruchwylio o bell gyda nifer bach o ddarparwyr AB a Dysgu yn y Gweithle. Disgwyliwn i'r cynllun peilot hwn ddod i ben ganol mis Ebrill 2021. Bydd CBAC wedyn yn dadansoddi'r adborth gan ganolfannau ac yn penderfynu ar ffordd ymlaen. Unwaith y bydd y peilot yn gyflawn caiff canolfannau wybod dyddiad y lansiad byw.

Lefel 2 GChDDP: Ymarfer a Theori

1. Rwy'n cymryd y bydd angen sefyll y cyn-bapurau dan amodau arholiad unwaith y bydd dysgwyr wedi dychwelyd i'r coleg ac na fydd modd eu gosod yn rhithwir i ddysgwyr?

Dylai dysgwyr ddangos eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth eu hunain ym mhob un o'r pedwar Deilliant Dysgu.

- DD1: Cyfnodau a phatrymau cyffredinol o ddatblygiad corfforol, deallusol (gwybyddol), iaith, emosiynol a chymdeithasol plant o adeg cenhedlu hyd at 19 oed
- DD2: Sut gall amgylcheddau dysgu helpu a chefnogi iechyd, llesiant, datblygiad ac anghenion plant o 0 i 19 oed
- DD3: Deilliant Dysgu 3: Gwerth ac effaith deddfwriaeth mewn perthynas â phob math o leoliadau chwarae, dysgu a datblygiad plant yng Nghymru
- DD4: Rôl a gwerth y gwasanaethau gofal cymdeithasol, addysg ac iechyd sydd ar gael yng Nghymru i gefnogi anghenion plant o ran gofal, iechyd, llesiant a datblygiad

Gall canolfannau ddefnyddio cyn-bapurau a deunyddiau asesu enghreifftiol a ddarparwyd gan CBAC i ddangos digon o dystiolaeth o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth pob dysgwr. Os defnyddir cyn-bapurau i gynhyrchu tystiolaeth o ddysgu, nid oes angen eu cwblhau i gyd mewn un sesiwn fel 'arholiad'. Mae'n bosibl eu rhannu'n adrannau i gyfateb i'r rhaglen ddysgu.

Nid yw canolfannau wedi'u cyfyngu i ddefnyddio'r cyn-bapurau a ddarparwyd. Dylai canolfannau, wrth fynd ati i lunio eu hasesiadau eu hunain, gyfeirio at Ganllawiau Creu Asesiadau CBAC gan ystyried bod angen i ddysgwyr gael mynediad teg i'r asesiadau; bod ehangder a dyfnder gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth yn cael eu samplu'n ddigonol ganddyn nhw; a bod modd eu marcio'n gywir ac yn gyson.

Gellir sefyll yr asesiadau hyn mewn canolfan neu gartref.

2. Beth yw ystyr y llythrennau CC?

Ystyr CC yw cymwysterau cyffredinol.

3. Faint o fyfyrwyr wnaeth sefyll yr arholiad mis Ionawr a pha gyfradd wnaeth lwyddo?

Safwyd yr arholiad gan gyfanswm o 277 o ddysgwyr ym mis Ionawr 2021. Gellir gweld manylion pellach am y gyfres arholiadau hon ar wefan DIGC https://www.dysguiechydagofal.cymru/cymwysterau/level-2-children-s-care-play-learning-and-development-practice-and-theory/ dan deunyddiau cwrs – arholiad Ionawr 2021.

Lefel 3 GChDDP: Ymarfer a Theori

1. Beth allwn ni ei wneud gyda'r dysgwyr o ran ymarfer wrth ddisgwyl iddynt fynd nôl ar leoliad, pryd bynnag y bydd hynny?

   Deallwn y pwysau a'r amharu sydd wedi bod ar bob dysgwr oherwydd Covid 19. Rydym wrthi'n barhaus yn adolygu unrhyw drefniadau lliniaru sydd ar waith gennym er mwyn sicrhau bod mynediad teg at asesu ar gael i bob dysgwr.

   Ym mis Mawrth 2021, rhannodd CBAC ffurflen casglu data â Colegau Cymru i gipio data am ddysgwyr Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori. Rydym yn annog pob canolfan i lenwi'r ffurflen hon yn fanwl. Bydd y wybodaeth hon yn ategu'r trafodaethau â GCC ac AaGIC i adolygu'r trefniadau lliniaru presennol a rhai y mae'n bosibl eu gwneud yn y dyfodol.
   Caiff unrhyw newidiadau i'r trefniadau lliniaru presennol eu cyfathrebu gennym unwaith y bydd Cymwysterau Cymru wedi'u cymeradwyo.

   Yn y cyfamser, anogwn y canolfannau i barhau â'u haddysgu a dysgu ar draws yr holl unedau yn y fanyleb ac i weithio gyda chyflogwyr er mwyn adeiladu perthnasoedd gweithio proffesiynol gyda'r posibilrwydd o ailgychwyn y dysgwyr ar leoliadau gwaith.